CBAC UG/Safon Uwch Daearyddiaeth – Ionawr 2019

Blwyddyn Newydd Dda! Gobeithio y bydd y cylchlythyr hwn yn ddefnyddiol i chi wrth gynllunio ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd. Cofiwch hefyd, os oes gennych unrhyw gwestiynau, bod croeso i chi gysylltu bob amser!
Erin

Cyflwyno Ymchwiliadau Annibynnol

Mae'r pedwar Sefydliad Dyfarnu yng Nghymru a Lloegr wedi cydweithio i lunio adroddiad sy'n ystyried yr arfer gorau a gafwyd yn 2018 yn ogystal â rhai o'r gwersi mwyaf gwerthfawr a ddysgwyd. Darllenwch y ddogfen hon yn ofalus – gallwch ei weld ar y wefan agored dan 'Dogfennau Cysylltiedig' yn yr adran 'Canllawiau ymchwiliad annibynnol'.

Byddwch yn gallu cyflwyno'r marciau a ddyfarnwyd i bob myfyriwr am ei Ymchwiliad Annibynnol Safon Uwch drwy'r wefan ddiogel ar ôl 10 Mawrth 2019. Bydd angen i holl ddeunydd y sampl a'r gwaith papur perthnasol gyrraedd y cymedrolwr erbyn 29 Mawrth 2019 fan bellaf.

Dylai tair adran y Ffurflen Ymchwiliad Annibynnol gyd-fynd â phob ymchwiliad yn y sampl. Mae'r rhain ar gael ar y wefan agored.

Adran 1	Dilysiad yr ymgeisydd/athro
Adran 2	Cynnig Ymchwiliad Unigol
Adran 3	Taflen Farciau Ymchwiliad Unigol

Mae ymhelaethiad ar y cyfarwyddiadau hyn yn y ddogfen 'Cyflwyno'r Ymchwiliad Annibynnol' sydd i'w gweld ar y wefan agored dan y tab 'Dogfennau Cysylltiedig' ar y dudalen gartref.

Adnoddau Newydd – DPP

Ar dudalen gartref y wefan agored, mae pennawd 'Deunyddiau Hyfforddi' dan y tab 'Dogfennau Cysylltiedig'. Yma mae'r holl ddeunydd DPP o gyfarfodydd mis Tachwedd. Mae esboniad yr Uwch Gymedrolwr i gyd-fynd â'r adran enghreifftiol Asesiad di-arholiad yn y pecyn DPP ar gael ar y wefan ddiogel.

Adolygu Arholiadau Ar-lein

Mae'r Adolygu Arholiadau Ar-lein (OER) yn gasgliad o unedau rhyngweithiol sy'n dwyn ynghyd nifer o elfennau o gyfres arholiadau 2018. Mae'r wefan yn caniatáu i chi ddefnyddio data cyffredinol yn ymwneud â pherfformiad ar bapur, cwestiynau arholiadau, cynlluniau marcio a sylwadau arholwyr a bydd yn eich arwain drwy adolygiad o gwestiynau arholiad penodol. I'ch cynorthwyo wrth fyfyrio ar arholiadau'r haf diwethaf, gallwch edrych ar ffeiliau ar gyfer Uned 3 ac Uned 4 y cwrs Safon Uwch. Sicrhewch eich bod yn darllen y cyfarwyddiadau ar y dudalen gartref ac yn defnyddio Adobe Acrobat DC i edrych ar y dogfennau.

Adnoddau Digidol

Ymunwch â ni yng Nghynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Daearyddol ym Manceinion rhwng 9 ac 11 Ebrill. Bydd CBAC yn noddi dau ddigwyddiad yn y Gynhadledd a bydd aelodau ein tîm ar gael wrth stondin CBAC/Eduqas drwyddi draw.

Cynhelir cwis (Grŵp Diddordeb Arbennig Cymru) Welsh Wise blynyddol y Gymdeithas Daearyddol ym mis Chwefror. Cwis llawn hwyl sy'n seiliedig ar Gymru ar gyfer disgyblion blwyddyn 9 yw hwn, ac mae'n gyfle gwerthfawr i ryngweithio ag ysgolion eraill a hyrwyddo Daearyddiaeth!

5/2/19 Ysgol Uwchradd Castell Alun, Wrecsam (16:30 – 18:30)
14/2/19 Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd (16:30 – 18:30)

Os oes gennych ddiddordeb mewn cofrestru tîm, e-bostiwch gill.miller@cherster.ac.uk

Digwyddiad blynyddol llwyddiannus arall yw bore Cyfoethogi Safon Uwch, a gynhelir yn Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn yn y Fflint ar 23 Ionawr 2019 (10:00 – 13:00). Os gallwch chi wneud y daith, mae'n fore defnyddiol iawn bob amser ac yn creu cyffro mawr ar gyfer y pwnc ymhlith y rhai sy'n mynychu. Mae'r diwrnod, sy'n cael ei drefnu gan Brifysgol Aberystwyth, yn ymdrin ag amrywiaeth o themâu yn gysylltiedig â Safon Uwch. Dylai unrhyw ganolfannau sydd â diddordeb mynychu e-bostio msw@aber.co.uk

Y Cylchlythyr Nesaf

Anfonir y rhifyn nesaf ar ddechrau tymor y haf. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, cofiwch gysylltu.

ERIN ROBERTS – Swyddog Pwnc – 029 2026 5158
TAGDaearyddiaeth@cbac.co.uk